



**DIOGELU DYFODOL
FFERYLLFA GYMUNEDOL
YNG NGHYMURU**

**MANIFFESTO AR GYFER FFERYLLFA
GYMUNEDOL**

2026

CYFLWYNIAD

Mae fferyllfeydd cymunedol yn gonglfaen darpariaeth gofal sylfaenol yng Nghymru, gan ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol i gleifion, sydd o fudd i'r GIG, a'r economi ehangach.

Mae llywodraethau Cymru wedi hir mabwysiadu dull blaengar o ran rôl fferyllfeydd cymunedol o fewn gofal iechyd. Fodd bynnag, mae fferyllfeydd yng Nghymru yn wynebu llwyth gwaith sy'n cynyddu'n barhaus. O ganlyniad, mae pwysau ariannu a chost wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Er gwaethaf hyn, mae fferyllfeydd cymunedol wedi dod i'r blaen ac wedi chwarae rhan enfawr mewn cynyddu mynediad cleifion at ofal iechyd a lleddfu pwysau ar rannau eraill o ofal sylfaenol.

Credwn y gall fferyllfeydd cymunedol wneud hyd yn oed mwy i gefnogi dinasyddion yng Nghymru. Gyda'r GIG a chymdeithas ehangach yn wynebu heriau sylweddol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn adeiladu ar lwyddiannau'r sector hyd yn hyn ac yn buddsoddi ymhellach mewn fferyllfeydd cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn parhau i elwa o'r gofal GIG o'r radd flaenaf sydd ei angen arnynt, a gall fferyllfeydd barhau i dynnu'r pwysau oddi ar rannau eraill o'r system.



MALCOLM HARRISON
PRIF WEITHREDWR

CYMDEITHAS Y FFERYLLWYR
CWMNI



PWYSIGRWYDD FFERYLLFEYDD CYMUNEDOL YNG NGHYMURU

Mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaeth gofal hanfodol – mae fferyllfeydd yn gweithredu fel y man galw cyntaf ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau cyffredin, gan ddarparu gofal yn agos at ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, a helpu i leddfu'r pwysau ar feddygon teulu ac ysbytai. Mae 86 miliwn o bresgripsiynau'n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd yng Nghymru bob blwyddyn – dros 1.6m o bresgripsiynau bob wythnos.[1]

86M

Presgripsiynau a ddosbarthir gan fferyllfeydd yng Nghymru bob blwyddyn



1.6M+

Presgripsiynau a ddosbarthir bob wythnos

Cyda chrynodiad uwch o fferyllfeydd cymunedol mewn ardaloedd mwy difreintiedig, mae darparu gwasanaethau'r GIG trwy fferyllfeydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar unwaith.

Bydd comisiynu mwy o ofal trwy'r rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn sicrhau bod mynediad at ofal iechyd ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Mae fferyllfeydd hefyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol i'w **heconomiâu lleol** – gan greu cyfleoedd cyflogaeth a gweithredu fel angor i strydoedd mawr lleol, gan gyfeirio ymwelwyr i siopau cyfagos.



[1] Welsh Government, [Primary care prescriptions: April 2024 to March 2025](#), 2 October 2025

Y DIRWEDD BRESENNOL YNG NGHYMRU

Dros amser, mae rôl fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi trawsnewid.

Mae Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw ers tro wrth ehangu'r hyn y gall fferyllfeydd cymunedol ei gynnig i gleifion. Fferyllfeydd yng Nghymru yw'r man galw cyntaf bellach am gyngor a thriniaeth ar gyfer ystod eang o gyflyrau cyffredin.

Mae cyflwyniad Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS) yn caniatáu i gleifion gael cyngor neu driniaeth GIG am ddim ar gyfer bron i dri deg o gyflyrau. Yn ystod 2024 yn unig, ymwelodd mwy na **400,000** o gleifion â fferyllfeydd i ddefnyddio'r wasanaeth yma.[2] Roedd gweithgaredd CAS yn ystod 2023/24 yn cynrychioli cynnydd o **44%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. [3]

Mae Cymru hefyd wedi cymryd rôlflaenllaw wrth arloesi gwasanaethau presgripsiynu annibynnol, gan sicrhau y gall hyd yn oed mwy o gleifion gael eu penodau gofal wedi'u cwblhau yn eu fferyllfa leol. Mae tua thraean o fferyllfeydd cymunedol ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth **presgripsiynu annibynnol**. [4] Erbyn 2030, mae disgwyl y bydd presgripsiynydd annibynnol ym mhob fferyllfa gymunedol. [5]

*Mae tua thraean o
fferyllfeydd cymunedol ar
hyn o bryd yn cynnig
gwasanaeth presgripsiynu
annibynnol*

Yn 2024 defnyddiodd
400,000
o gleifion y Gwasanaeth
Anhwylderau Cyffredin

Yn 2023/24 roedd
44% ↑
yng ngweithgaredd y
Gwasanaeth Anhwylderau
Cyffredin o'i gymharu â'r
flwyddyn flaenorol



[2] Welsh Government, '[More than 400,000 visit pharmacies for common health issues](#)', 21 January 2025

[3] StatsWales, '[Common ailments service - number of consultations per ailment, by local health board](#)

[4] Welsh Government, '[More than 400,000 visit pharmacies for common health issues](#)', 21 January 2025

[5] Welsh Pharmaceutical Committee, '[Pharmacy: Delivering a Healthier Wales](#)', 2019

ASTUDIAETH ACHOS

Daeth menyw 67 oed i mewn i'm fferyllfa gyda symptomau UTI isaf. Ni allem ei thrin gan ddefnyddio'r PGD oherwydd ei hoedran ond gan ei fod o fewn fy sgôpfel Presgripsiynydd Annibynnol, fe wnes i drefnu ymgynghoriad iddi. Llwyddais i'w hasesu a'i thrin yn ddiogel a'i chael i fynd a sampl at y Meddygon i wneud yn siŵr ein bod wedi darparu'r gwrthfotigau cywir. Fe wnes i roi rhwyd ddiogelwch a chynghori ar sut i gyflymu adferiad a beth i fod yn wylidwrus amdano o ran meddyginiaeth.

Gadawodd yn fodlon a chyda thriniaeth amserol.

Amy Fjelle, fferyllydd presgripsiynydd annibynnol ar gyfer Fferyllfa Rowlands, Wrecsam



I'yn ddiweddar, fodd bynnag, mae pwysau cost a llwyth gwaith ar fferyllfeydd cymunedol wedi codi'n sylweddol. Yn wahanol i fusnesau eraill, pan fydd eu costau'n cynyddu, ni all fferyllfeydd drosglwyddo'r costau hynny i gleifion. Mae hyn yn erydu gallu busnesau i fuddsoddi yn eu pobl, eu prosesau a'u hadeiladau, gan adael bron dim lle i arloesi.

Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth nesaf yn adeiladu ar gyflawniadau'r sector fferyllfa cymunedol.

Cyda buddsoddiad, gall fferyllfeydd:

- chwarae rhan fwy mewn **gofal brys ac argyfwng**, gan ddarparu llwybr mynediad ychwanegol i gleifion;
- harneisio presgripsiynu annibynnol i ddarparu mwy o wasanaethau'r GIG gan gynnwys rôl ehangach i **reoli cyflyrau cronig**, gan leddfu pwysau ar feddygon teulu; a
- darparu mwy o **wasanaethau ataliol hanfodol** gan gynnwys brechiadau, gwiriadau risg clefydau cronig, rhoi'r gorau i ysmegu a chymorth rheoli pwysau, a fyddai'n atal cleifion ac aelodau'r cyhoedd rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf.



HERIAU CYFREDOL

Galw sy'n cynyddu'n barhaus

Fel rhannau eraill o'r GIG, mae'n rhaid i fferyllfeydd ddelio â heriau poblogaeth sy'n heneiddio â chyflyrau iechyd sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae cyllid yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â'r galw sy'n cynyddu'n barhaus, sydd wedi arwain at ostyngiad o **4%** mewn fferyllfeydd cymunedol yn 2023-24 yn unig.

Roedd lleihad o

4%

yn rhwydwaith y
fferyllfeydd yn 2023-24 yn
unig

Costau gweithredol cynyddol

Mae fferyllfeydd wedi amsugno ac yn parhau i amsugno pwysau **syllweddol o ran costau**. Yn wahanol i fusnesau eraill, ni all fferyllfeydd drosglwyddo costau cynyddol i gleifion, gan ddwysáu'r pwysau ariannol.

Heriau'r gweithlu

yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dod yn fwyfwy anodd recriwtio a chadw timau fferyllfa. Nododd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) **brinder gweithlu** fel y pryder a godwyd amlaf yn ei arolwg fferyllfa cenedlaethol, gan atgyfnerthu'r angen am fuddsoddiad i gefnogi a chynnal y sector.



Digidol

Mae newidiadau digidol wedi methu â chadw i fyny â rôl uchelgeisiol fferyllfa gymunedol. Ar hyn o bryd, rhaid i dimau fferyllfa ddefnyddio gwahanol lwyfannau ar gyfer gwahanol wasanaethau, gan gynnwys y platform Dewis Fferyllfa i gofnodi ymgynghoriad claf, diweddarau cofnod meddygol y claf a ddefnyddir i ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau, a hawlio trwy borth ar-lein wahanol. Mae hyn i gyd yn creu **baich gweinyddol**, gan gyfyngu ar allu fferyllfeydd i ddarparu mwy o ofal.

Bylchau data

Mae darnio presennol a data canlyniadau cyfyngedig mewn fferyllfa gymunedol wedi'i ledaenu ar draws systemau lluosog yn rhwystro'r gallu i ddangos tystiolaeth o lwyddiant a thargedu gwelliannau i sicrhau bod mwy o bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

EIN GOFYNION I'R LLYWODRAETH NESAF

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

- 1 Ariannu fferyllfeydd cymunedol** yn unol â llwyth gwaith a chostau chwyddiant: Sicrhau bod cyllid yn codi yn unol â galw cynyddol cleifion i ddiogelu ac ehangu gofal fferyllfeydd cymunedol.
- 2 Buddsoddi mewn gweithlu fferyllfeydd:** Cefnogi timau rheng flaen, cynyddu nifer y fferyllwyr presgripsiynu annibynnol, a chefnogi'r sector i sicrhau bod fferyllfeydd cymunedol yn parhau i fod yn lle deniadol i weithio.
- 3 Cyflwyno a chyflymu newidiadau digidol** i sicrhau bod gan fferyllfeydd cymunedol yr offer i ddiwallu anghenion cleifion. Dylai hyn gynnwys symud yr holl ddata iechyd a gofal i'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) i greu un storfa ddata clinigol genedlaethol, gwella rhyngweithredadwyedd systemau, a datblygu safonau i dderbyn ac anfon atgyfeiriadau digidol ar draws y GIG. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gwybodaeth hanfodol ar gael yn rhwydd i gefnogi fferyllfeydd i ddiwallu anghenion cleifion.
- 4 Sicrhau bod data perfformiad yn cael ei rannu gyda'r sector:** Dylid rhannu a chyhoeddi data a gesglir ar ddefnydd a pherfformiad gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol yn rhagweithiol. Bydd hyn yn helpu i yrru gwelliannau gwasanaeth pellach, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus.
- 5 Gyrru mwy o gydweithio ar draws y GIG cyfan** i nodi ffyrdd y gellir lleihau'r galw ar draws y system gyfan, yn ogystal â mesurau y gellir eu cymryd i ryddhau capasiti.



SUT ALLWCH CHI GEFNOGI EICH FFERYLLFA LEOL

Rydym yn annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i gefnogi a chryfhau'r sector fferyllfa cymunedol, fel y gall cleifion a'r cyhoedd fel ei gilydd barhau i gael mynediad at y gofal o'r radd flaenaf sydd ei angen arnynt.

Gallwch gefnogi fferyllfeydd cymunedol lleol drwy:

- Siarad â chydweithwyr sy'n datblygu maniffesto eich plaid am y gefnogaeth y mae angen i'r rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol barhau i'w ddarparu i gleifion a'r GIG.
- Ymweld â fferyllfa leol i weld a phrofi'r gofal o'r radd flaenaf y maent yn ei ddarparu bob dydd, ac i weld yn uniongyrchol yr heriau y mae fferyllfeydd yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- Defnyddio eich cyrhaeddiad drwy gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at y gofal rhagorol y mae fferyllfeydd yn ei ddarparu i gleifion ac aelodau'r cyhoedd.
- Cefnogi'r maniffesto hwn ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau lleol.
- Rhowch wybod i'ch etholwyr sut rydych chi'n cefnogi eu fferyllfeydd cymunedol lleol.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau y gall fferyllfeydd cymunedol nid yn unig barhau i gyflawni ar gyfer pobl Cymru ond y gallent hefyd arwain arloesedd ac esblygiad gofal sylfaenol. Drwy fynd i'r afael â'r heriau a nodir yn y maniffesto hwn, gall Cymru sicrhau dyfodol iachach i'w holl gymunedau.



Cysylltu a Chymorth

Rydym yn annog gwleidyddion, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gefnogi'r blaenoriaethau hyn a gweithio gyda ni i hyrwyddo rôl amhrisiadwy fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y sector fferyllfa cymunedol, cysylltwch â Neeraj Shah, Pennaeth Materion Cyhoeddus yng Nghymdeithas y Fferyllwyr Cwmni drwy Neeraj.Shah@thecca.org.uk.

PWY YDYM NI

CYMDEITHAS Y FFERYLLWYR CWMNI

Wedi'i sefydlu ym 1898, y CCA yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer nifer o weithredwyr fferyllfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae aelodaeth y CCA yn cynnwys ASDA, Boots, Morrisons, Fferyllfa Rowlands, Superdrug, Tesco, a Well, sydd rhyngddynt yn berchen ar ac yn gweithredu bron i 300 o fferyllfeydd ledled Cymru.



OFFICE@THECCA.ORG.UK



@CCAPHARMACY



THECCA.ORG.UK



COMPANY CHEMISTS'
ASSOCIATION